www.umaber.co.uk/etholiadau
#ETHOLIADAUABER

CANLLAWIAU ETHOLIAD

UNDEB Y MYFYRWYR

Rydym yn sylweddoli bod staff addysgu a gwasanaethau proffesiynol yn brysur iawn, yn arbennig yn yr amgylchiadau presennol, ac yn aml mae'r syniad o orfod bod yn ymwybodol o sut y caiff etholiadau'r undeb eu cynnal yn swnio fel rhywbeth na ellir ei gyflawni.

Serch hynny, mae'r canllaw byr hwn yn mynd i'r afael â rhai o'r pryderon a'r cwestiynau mwyaf cyffredin a godir gan staff, yn ogystal â darparu trosolwg o'n hetholiadau a phrosesau cysylltiedig.

CYNNWYS

PAM MAE UNDEB Y MYFYRWYR YN CYNNAL CYMAINT O ETHOLIADAU? 4

PRYD MAE'R ETHOLIADAU'N CAEL EU CYNNAL? 4

PWY ALL SEFYLL MEWN ETHOLIAD? 5

A OES UNRHYW REOLAU PENODOL Y MAE ANGEN I MI FOD YN YMWYBODOL OHONYNT FEL AELOD O STAFF? 5

A ALLAF ANNOG MYFYRIWR I BLEIDLEISIO? 5

ALLAF I HELPU MYFYRIWR I YMGYRCHU YN YR ETHOLIAD? 6

ALLAF ANNOG MYFYRIWR I BLEIDLEISIO? 6

A ALLAF GEFNOGI RHAI YMGEISWYR PENODOL? 6

BETH YW'R GWAHANIAETH RHWNG SWYDDOG LLAWN-AMSER A SWYDDOG GWIRFODDOL? 6

SUT MAE MYFYRWYR YN PLEIDLEISIO YN YR ETHOLIAD? 7

BLE ALL YMGEISWYR YMGYRCHU? 7

PA GEFNOGAETH Y MAE YMGEISWYR YN EI CHAEL GAN UNDEB Y MYFYRWYR? 7

PRYD MAE YMGEISWYR LLWYDDIANNUS YN DECHRAU YN EU SWYDDI? 7

PAM MAE UNDEB Y MYFYRWYR YN CYNNAL CYMAINT O ETHOLIADAU?

Yn sicr, mae gan Undebau Myfyrwyr yn cynnal mwy o etholiadau na bron unrhyw sefydliad arall o'n math. Fodd bynnag, fel corff aelodaeth, maent yn ffordd hanfodol i fyfyrwyr wneud penderfyniadau ynghylch pwy sy'n eu cynrychioli.

Fel sefydliad elusennol, mae etholiadau'n rhoi cyfle i hyrwyddo ein gwaith cyfredol i gorff y myfyrwyr yn ehangach, yn ogystal â'u galluogi i lunio ei waith yn y dyfodol. Mae hefyd yn anghenraid cyfreithiol o dan Ddeddf Addysg 1994 bod rhai rolau'n cael eu hethol drwy bleidlais draws-gampws.

A dweud hynny, i lawer mae'r weithred o bleidleisio mewn etholiad undeb yn parhau i fod yn brofiad unigryw ac i rai, yn un sy'n peri rhywfaint o amheuaeth. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod myfyrwyr yn cydnabod, p'un ai'n ydyn nhw'n ymgysylltu â'r undeb ai peidio, mae ein hetholiadau'n ethol swyddogion sy'n cael eu talu bob blwyddyn i gynrychioli syniadau a barn myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth.

Mae'r unigolion hyn yn eistedd ar bwyllgorau allweddol, yn cwrdd â staff ar draws y sefydliad yn rheolaidd ac yn aml yn cael eu holi am syniadau a barn y corff myfyrwyr. Mae hyn ynddo'i hun yn rheswm hollbwysig i fyfyrwyr fynd ati i bleidleisio.

PRYD MAE'R ETHOLIADAU'N CAEL EU CYNNAL?

Mae'r dyddiadau'n amrywio bob blwyddyn, ond fel arfer mae'r cyfnod sefyll yn ein prif etholiadau yn dod i ben tua diwedd Chwefror bob blwyddyn, gyda'r bleidlais yn digwydd tua chanol mis Mawrth.

Mewn achosion lle mae swyddi heb eu llenwi, rydym hefyd yn cynnal isetholiadau ar ddiwedd Ebrill / Mai a Hydref / Tachwedd, sydd hefyd yn tueddu i gyd-redeg ag etholiadau'r Cynrychiolwyr Academaidd ac ar gyfer Cynhadledd UCM yn ystod y cyfnodau hyn.

Mae'r holl ddyddiadau ar gyfer etholiadau sydd i ddod i'w gweld ar ein gwefan.

PWY ALL SEFYLL MEWN ETHOLIAD?

Gall pob myfyriwr cofrestredig sefyll yn yr etholiad, er y gall hyn fod ychydig yn gymhleth yn achos Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig sydd wrthi'n 'ysgrifennu' neu'n ailgyflwyno gwaith sydd am fod â statws 'ymgeiswyr''.

A OES UNRHYW REOLAU PENODOL Y MAE ANGEN I MI FOD YN YMWYBODOL OHONYNT FEL AELOD O STAFF?

Er bod nifer o reolau sy'n llywodraethu'r etholiad, yn y pen draw, mae'r rhain yn ategu dwy egwyddor graidd a ddisgwylir gan ymgeiswyr ...

Yn gyntaf, nad ydynt yn gwneud unrhyw beth nad oes gan ymgeiswyr eraill gyfle cyfartal i'w wneud;

Yn ail, eu bod yn trin pob myfyriwr, ymgeisydd ac aelod staff â pharch.

Rydym bob amser yn argymell ystyried yr egwyddorion hyn wrth ystyried sut i ymdrin ag ymholiad sy'n ymwneud ag etholiad. Mae dadansoddiad manylach o'r rheolau ar gyfer pob etholiad **i'w weld ar ein gwefan**.

A ALLAF ANNOG MYFYRIWR I BLEIDLEISIO?

Gallwch yn sicr. Gall anogaeth gan rywun arall yn dweud y byddech chi'n gwneud ymgeisydd gwych fod yr hwb mae rhywun ei angen i sefyll. I gynorthwyo yn hyn o beth, rydym yn darparu system Awgrymu Myfyriwr er mwyn i fyfyrwyr a staff fel ei gilydd awgrymu myfyrwyr (yn ddienw os ydynt am wneud hynny) i sefyll ar gyfer rôl. Rydym yn aml yn canfod bod y system hon yn rhoi'r hwb i hyder myfyrwyr sydd ei angen iddynt roi cynnig ar sefyll etholiad.

ALLAF I HELPU MYFYRIWR I YMGYRCHU YN YR ETHOLIAD?

Ni chaniateir i staff y Brifysgol nac Undeb y Myfyrwyr i gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd ymgyrchu, gan gynnwys help gydag ysgrifennu maniffestos. Gall unrhyw Staff sy'n Fyfyrwyr wneud hyn, ond rhaid i hyn fod yn eu hamser eu hunain ac nid pan fyddant ar ddyletswyddau cyflogedig neu drwy gyfleoedd sydd ond ar gael iddynt oherwydd eu rôl.

ALLAF ANNOG MYFYRIWR I BLEIDLEISIO?

Gallwch yn sicr. Ond rhaid i chi eu hannog i bleidleisio yn gyffredinol yn unig. Ni chaniateir i unrhyw aelod staff y Brifysgol nac Undeb y Myfyrwyr i annog myfyrwyr i bleidleisio dros ymgeiswyr penodol. Os bydd hyn yn digwydd gall beri i'r ymgeisydd /ymgeiswyr perthnasol gael eu gwahardd.

A ALLAF GEFNOGI RHAI YMGEISWYR PENODOL?

Na chewch. Rhaid i Brifysgol Aberystwyth ac Undeb Myfyrwyr Aberystwyth barhau i fod yn ddiduedd. Er ein bod am i'r holl staff hyrwyddo'r etholiadau i fyfyrwyr, dylid gwneud hyn mewn modd sy'n hyrwyddo ymgeiswyr yn gyfartal neu'n rhoi'r un cyfle iddyn nhw.

Er enghraifft, os ydych chi'n caniatáu i ymgeisydd e-bostio rhestr gysylltu â myfyrwyr neu i weiddi allan mewn darlith ar-lein, rhaid i chi ganiatáu i'r ymgeiswyr eraill wneud yr un peth os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.

Mae'n bwysig ystyried ymlaen llaw'r ffordd orau o hwyluso cyfleoedd, er enghraifft anfon allan casgliad o gyflwyniadau ar ôl dyddiad cau penodol yn achos e-bost, neu ofyn i fyfyriwr ddychwelyd ar ddiwedd y ddarlith os yw am weiddi allan, os hyw amser yn brin.

BETH YW'R GWAHANIAETH RHWNG SWYDDOG LLAWN-AMSER A SWYDDOG GWIRFODDOL?

Mae'r **5 Swyddog Llawn-amser** yn cael eu hethol a'u cyflogi am flwyddyn y tu allan i'w hastudiaethau, tra bod Swyddogion Gwirfoddol fel arfer yn cyflawni eu rôl ochr yn ochr â'u hastudiaethau..

Mae gennym gyfanswm o **17 rôl ar gyfer Swyddogion Gwirfoddol**; mae'r mwyafrif ohonynt yn cynrychioli grwpiau penodol o fyfyrwyr, yn seiliedig ar grwpiau ryddhad, diddordeb neu gyfadran.

SUT MAE MYFYRWYR YN PLEIDLEISIO YN YR ETHOLIAD?

Defnyddiwn y bleidlais sengl drosglwyddadwy (y cyfeirir ati weithiau fel y bleidlais drosglwyddadwy amgen) i benderfynu ein hetholiadau. Mae hyn yn caniatáu pleidleisio yn ôl trefn poblogrwydd yn hytrach nag un bleidlais unigol. Cynhelir y rhan fwyaf o'r pleidleisio drwy ApAber gyda balot electronig unigryw; caiff dolen ohoni hefyd ei hanfon at eu cyfeiriad e-bost Prifysgol Aberystwyth fel mesur diogelwch ychwanegol.

Os ydych chi'n ymwybodol o unrhyw fyfyriwr sydd am bleidleisio ond sy'n cael anawsterau, cyfeiriwch nhw at **undeb.etholiadau@aber.ac.uk**

Drwy weithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Gwybodaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n pleidleisio, o 18% dair flynedd yn ôl i 37% y llynedd, sef un o'r rhai uchaf yn y DU.

BLE ALL YMGEISWYR YMGYRCH?

Eleni, caiff ein hetholiadau eu cynnal bron yn gyfangwbl ar-lein, ac mae'n hanfodol bwysig bod myfyrwyr yn dilyn pob cyfyngiadau cyfreithiol wrth ymgyrchu. Bob blwyddyn rydym yn cydlynu â gwahanol adrannau i ddiweddaru a chadarnhau rheolau ynghylch cyhoeddusrwydd ar y campws. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y rhagwybodaeth ar gyfer ymgeiswyr sydd i'w gweld ar ein gwefan.

PA GEFNOGAETH Y MAE YMGEISWYR YN EI CHAEL GAN UNDEB Y MYFYRWYR?

Rhoddir hyfforddiant i bob ymgeisydd ar yr etholiadau a'r rheolau a'r broses gysylltiedig. Mae pob ymgeisydd hefyd yn derbyn swm bychan o arian ar gyfer talu am gostau ymgyrchu.

Mae'r tîm etholiadau ar gael drwy gydol y cyfnodau sefyll ac ymgyrchu i ateb unrhyw gwestiynau sydd gan fyfyrwyr neu ymgeiswyr.

Caiff pob ymgeisydd fynediad i'n Hymgynghorydd Myfyrwyr.

PRYD MAE YMGEISWYR LLWYDDIANNUS YN DECHRAU YN EU SWYDDI?

Mae'r holl ymgeiswyr llwyddiannus yn dechrau ar eu blwyddyn yn y swydd ar 1af Gorffennaf, gyda hyfforddiant a chymorth i sefydlu drwy gydol yr haf.

BETH ALLAF I EI WNEUD OS OES GEN I UNRHYW GWESTIYNAU?

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau pellach, gallwch gysylltu â'r Tîm Etholiadau ar **undeb.etholiadau@aber.ac.uk**

Fel arall, gallwch gysylltu â'r Dirprwy Swyddog Etholiadau yn uniongyrchol **mmd11@aber.ac.uk** neu **est. 1742.**